

Cymhorthydd Gweinyddol a Threfn Lefel 3 – Uned Gynhwysiad

Cyfeirnod y Swydd: YYGC00269W1RDE
Lleoliad: Ysgol Glan Clwyd
Cyflog: Gradd 5 (£18,647 - £20,587)
Oriau: 37 awr yr wythnos, Tymor Ysgol yn Unig + 5 HMS
Math o gytundeb: Swydd Parhaol i ddechrau cyn gynted â phosib
Swydd Allanol

Rydym yn awyddus i benodi unigolyn ymroddgar a brwdfrydig i ategu gwaith proffesiynol y tîm trwy fod yn gyfrifol am ymgymryd â phrosesau gweinyddu a chyfundrefnol o fewn tîm gweinyddol yr ysgol. Byddwch yn cefnogi yn weinyddol, yn rhoi cymorth ac arweiniad i bobl ifanc a rheini sy'n ymwneud â nhw o fewn yr Uned Gynhwysiad. Yn symud rhwystrau i ddysgu er mwyn hyrwyddo cyfranogi effeithiol; gwella dysgu unigol; codi dyheadau a chyflawni eu potensial.

Mae'n hanfodol fod gennych sgiliau Technoleg Gwybodaeth rhagorol a gwybodaeth sylfaenol am ddefnyddio systemau cyfrifiadurol. Bydd rhaid i ymgeiswyr fod â sgiliau rhyngpersonol, cyfathrebu a threfnu ardderchog ac yn gallu cyrraedd targedau o dan bwysau ac yn unol ag amserlenni tynn.

Mae'n hanfodol bwysig eich bod chi'n medru cynllunio, trefnu a blaenoriaethu eich llwyth gwaith eich hun.

Bydd y penodiad yn amodol ar Wiriad gan y Swyddfa Cofnodion Troseddol.

Am sgwrs anffurfiol cysylltwch â'r ysgol drwy ffonio 01745 582611 neu e bostio swyddi@ysgolglanclwyd.co.uk

Dyddiad Cau: Dydd Mercher 24/11/2021

Os oes gennych ddi-ddordeb yn y swydd hon, gwnewch gais ar-lein trwy gwefan Sir Ddinbych www.sirdinbych.gov.uk/. Am ddulliau eraill o wneud cais, cysylltwch â Rhian Davies ar 01745 582611 neu drwy e-bost swyddi@ysgolglanclwyd.co.uk

Rhaid i ymgeiswyr gwblhau ein ffurflen gais i gael ei ystyried. Mae'n ddrwg gennym nad ydym yn gallu ateb pob cais. Os nad ydych wedi derbyn ateb o fewn tair wythnos i'r dyddiad cau, dylech gymryd yn ganiataol nad ydych wedi cyrraedd y rhestr fer am gyfweiliad.

This Advert is for an Administrative post at Ysgol Glan Clwyd for which the ability to speak Welsh is an essential requirement.

Mae Cyngor Sir Ddinbych yn ymroddedig i Gyfle Cyfartal a'i Safonau Iaith Gymraeg. Rydym yn croesawu ceisiadau yn y Gymraeg. Sylwch na fydd unrhyw ffurflenni cais a dderbynnir yn y Gymraeg yn cael eu trin yn llai ffafriol na ffurflenni cais a gyflwynwyd yn Saesneg.